



Cofnodion Terfynol y CBC
Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau (ADC)
15 Rhagfyr 2025 am 14:00 o'r gloch
trwy Microsoft Teams

Aelodau:

Susan Elsmore (SE) Cadeirydd ac Aelod Lleyg, CBCGC
Phillip Kloer (PK) Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Mandy Rayani (MR) Is-gadeirydd ac Aelod Lleyg, CBCGC

Yn Bresennol:

Carole Bell (CB) Cyfarwyddwr Nyrsio ac Ansawdd, CBCGC
Adrian Clarke (AC) Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau Agored i Niwed, CBCGC

Iolo Doull (ID) Cyfarwyddwr Meddygol, CBCGC
Aaron Fowler (AF) Ysgrifennydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu, CBCGC

Angela Mutlow (AM) Cyfarwyddwr Corfforaethol Gweithrediadau, Llais
Rhodri Pyart (RP) Arweinydd Ansawdd Rhwydwaith Arennau Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (hyd at Eitem 4.2)

Angela Mutlow (AM) Cyfarwyddwr Corfforaethol Gweithrediadau, Llais
Ross Whitehead (RW) Cyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Ambiwlans ac 111, CBCGC
Melanie Wilkey (MW) Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol, CBCGC

Yn Arsylwi:

Susan Browne (SB) Rheolwr Rhwydwaith Arennau Cymru, CBCGC (hyd at Eitem 4.2)
Vicki Dawson-John (VDJ) Partner Busnes Ansawdd a Chanlyniadau
Kirsty John (KJ) Partner Busnes Ansawdd a Chanlyniadau
Adele Roberts (AR) Pennaeth Ansawdd a Gofal Cleifion, CBCGC
Helen Tyler (HT) Pennaeth Llywodraethu a Risg, CBCGC

Gwesteion:

Rachel Taylor (RT) Claf (Ar gyfer eitem 2.1)
Julia Warwick (JW) Nyrs Ailadeiladu'r Fron, BIPBA (Ar gyfer eitem 2.1)

Ymddiheuriadau:

Shameem Nawaz (SN) Aelod Lleyg, CBCGC

Cofnodion:

Gareth Mitchell (GM) Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol, CBCGC

Cyfeirnod yr Eitem	Eitem Agenda
QS025/092	1.1 Croeso a Chyflwyniadau Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gwnaed cyflwyniadau. Roedd y cyfarfod, a gynhaliwyd trwy Microsoft Teams, yn gwneud cworwm ac ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau i recordio'r cyfarfod at ddibenion gweinyddol.
QS025/093	1.2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb, fel y disgrifir uchod.
QS025/094	1.3 Datganiadau o Fuddiant Datgelodd CB gysylltiad personol â Julia Warwick, ond penderfynwyd na fyddai hwn yn gyfystyr â gwrthdaro at ddibenion stori'r claf.
QS025/095	1.4 Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 06 Hydref 2025 a Materion sy'n Codi Cymeradwywyd bod y cofnodion o 6 Hydref 2025 yn gofnod gwir a chywir, gydag un mân gywiriad i deitl swydd AM. Diweddarodd PK am gynnydd ynglŷn ag ail gynrychiolydd Prif Swyddog Gweithredol ar gyfer y Pwyllgor, gan gadarnhau bod trafodaethau'n parhau i sicrhau cefnogaeth.
QS025/096	1.5 Cofnod Camau Gweithredu Cafwyd y Cofnod Camau Gweithredu. Nododd yr aelodau:



	<ul style="list-style-type: none">• 014 – Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo i ddatblygu'r Gofrestr Risg Sefydliadol (CRS) gyda thimau lleol. Byddai diweddariad manylach yn cael ei ddarparu o dan Eitem 3.1 ar yr Agenda.• 017 – Gohiriwyd yr eitem i gyfarfod yn y dyfodol a byddai'r cam gweithredu'n cael ei dynnu o'r cofnod camau gweithredu a'i symud i Flaengynllun Busnes yr Is-bwyllgor ADC. Nododd yr aelodau hefyd fod cynllun profiad cleifion yn cael ei ddatblygu a chytunodd i ychwanegu stori claf gwasanaeth rhywedd pobl ifanc at y cofnod a threfnu ei adolygu ymhen rhyw 12 mis.
QS025/ 097	<p>2.1 Stori Claf</p> <p>Rhannodd RT ei phrofiad personol yn un o gleifion Gwasanaeth Ailadeiladu'r Fron Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA) ochr yn ochr â'i Nyrs Ailadeiladu'r Fron, Julia Warwick. Rhoddodd CB gefndir ar y gwasanaeth, gan esbonio ei rôl ranbarthol, cyfansoddiad y tîm clinigol, a nodau'r gwasanaeth i sicrhau tegwch gofal ar gyfer cleifion cancer y fron a chleifion risg uchel yn enetig.</p> <p>Disgrifiodd RT ei phrofiad o lawdriniaeth ailadeiladu'r fron sy'n lleihau risg, gan fanylu ar agweddau fel hanes teuluol, profion genetig, ymyriadau llawfeddygol, cymhlethdodau, a heriau emosiynol a logistaidd. Roedd y rhain yn cynnwys cyfnodau aros maith, gan fod angen cychwyn proses newydd ar gyfer pob triniaeth. Nododd yr Aelodau yr amseroedd aros heriol (yn rhannol oherwydd y cyfyngiadau o amgylch y brigiad o achosion COVID-19 a oedd yn anochel) yn ogystal â heriau llwybr. Roedd yr aelodau yn pryderu bod cleifion yr oedd angen llawdriniaethau ail gam neu adolygu arnynt yn cael eu rhoi yn ôl ar ddechrau'r rhestr aros, a bod hyn yn aml yn arwain at oedi hir heb unrhyw derfynau amser ffurfiol ar gyfer unrhyw lawdriniaethau dilynol. Roedd yr Aelodau yn cydnabod yr effaith seicolegol y byddai hyn yn ei chael ar gleifion. Bu RT yn amlygu ac yn canmol y gefnogaeth emosiynol a chorfforol a ddarparodd y tîm trwy gydol llwybr y claf ond cytunodd fod amseroedd aros maith yn heriol.</p> <p>Disgrifiodd JW fod staff yn wynebu heriau proffesiynol oherwydd amseroedd aros hir, a oedd yn arwain yn aml at gwynion cleifion. Un rhan allweddol o'u rôl oedd cydbwysu blaenoriaethau rhwng achosion brys a rhai nad ydynt yn frys, gan hefyd annog cleifion i siarad a sicrhau bod eu pryderon yn cael eu datrys.</p> <p>Amlinellodd MW heriau comisiynu, gan gynnwys cyfyngiadau cyllido, cymhlethdodau llwybrau ac ymdrechion i wella amseroedd aros trwy gyllid gofal wedi'i gynllunio a chydweithio â darparwyr, yn ogystal â gwaith parhaus i symleiddio llwybrau cleifion.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i RT am rannu ei stori a JW am gymryd yr amser i ddod i'r cyfarfod.</p> <p>Penderfynodd yr Aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodi stori'r claf.
QS025/ 098	<p>3.1 Cofrestr Risg y Cyd-bwyllgor Comisiynu – Risgiau a Neilltuwyd i'r Is-bwyllgor ADC</p> <p>Cafodd y Pwyllgor risgiau neilltuedig yr is-bwyllgor ADC o Gofrestr Risg Weithredol CBCGC ar 30 Tachwedd 2025. Ar ôl craffu ac adolygu gan yr Is-bwyllgor ADC, bydd y CBC yn cael cofrestr risg Tachwedd 2025 yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2026. Amlygodd AF:</p> <ul style="list-style-type: none">• Bod 13 risg, gyda sgôr o 15 neu uwch, wedi'u neilltuo i'r Is-bwyllgor ADC. Dosbarthwyd yr holl risgiau hyn yn Risgiau Comisiynu Gwasanaethau Arbenigol.• Rhwng mis Medi 2025 a mis Tachwedd 2025 ychwanegwyd dwy risg newydd – Risg 91 Anemia Etifeddol a Risg 92 Swyddi Gwasanaethau Menywod a Phlant a Gomisiynir.• Llaciwyd un risg (Risg 3 – llawfeddygaeth blastig ond roedd hon yn risg a neilltuwyd i'r is-bwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid ac roedd wedi'i hamlygu oherwydd y cysylltiad â stori'r claf); a• Bod adran newydd yn mynd i'r afael â risgiau sy'n dod i'r amlwg. Roedd Risg 93 yn ymwneud â chynaliadwyedd gwasanaeth ar gyfer y Rhaglen Trawsblannu Genedlaethol; adroddwyd am y risg hon yn fanylach o dan Eitem 4.2 ar yr Agenda.



Nid oedd y proffil risg a'r sgoriau wedi newid i raddau helaeth. Nododd AF fod risgiau'n cael eu hailddiffinio gyda champau gweithredu a lliniaru sy'n canolbwyntio ar y comisiynydd a rhannodd fod dwy risg wedi'u hailysgrifennu gyda thimau comisiynu (Risgiau 3 ac 88). Bydd risgiau newydd yn cael eu hadolygu gan yr Uwch Dîm Arwain cyn iddynt gael eu hychwanegu at y gofrestr risg sefydliadol (CRS) wrth symud ymlaen i sicrhau eu bod yn cael eu disgrifio a'u sgorio'n briodol. Nodwyd y bydd yr Uwch Dîm Arwain yn cynnal adolygiad o risgiau yn ystod ei gyfarfod ar 17 Rhagfyr 2025.

Codwyd ymholiad ynglŷn â **Risg 92** o ran priodoldeb dyrannu arian i swyddi nad oeddent wedi'u hysbysebu. Rhoddodd MW wybod i'r aelodau fod y mater hwn wedi'i drafod mewn cyfarfod diweddar, a bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi cadarnhau nad oedd rhewi recriwtio ar waith ar gyfer y swyddi. Yn lle hynny, bydd swyddi'n cael eu hadolygu cyn cael eu hysbysebu'n fewnol, gyda'r swyddi gwag hyn yn cael eu rheoli ar lefel bwrdd clinigol. Mae hyn wedi arwain at rywfaint o oedi, ond bydd y swyddi yn cael eu hysbysebu.

Roedd ansicrwydd ynghylch a oedd **Risg 89** yn ymwneud â chyfrifoldeb clinigol neu gadw cofnodion. Ymddangosodd y mater gydag Ysbyty Plant Alder Hey ond tynnodd sylw hefyd at wahanol arferion ymhlith darparwyr a llwybrau cleifion i glinigau allgymorth. Cadarnhaodd MW fod ei thîm yn mynd i'r afael â hyn yn benodol ar gyfer Alder Hey, gydag ymdrechion ehangach i egluro pwy oedd yn gyfrifol am flaenoriaethu cleifion brys mewn clinigau allgymorth.

Risg 88 – Codwyd pryder ynglŷn â thrombectomi a diffyg amserlen mewn perthynas â'r achos busnes gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF) mewn perthynas â darparu gwasanaeth thrombectomi mecanyddol 24/7 yn Ne Cymru. Eglurodd MW, er bod y risg wedi'i hail-ysgrifennu i sicrhau bod ganddi fwy o ffocws comisiynu, nid oedd y sgôr wedi newid. Eglurwyd bod y trefniadau comisiynu presennol yn caniatáu mwy na gwasanaeth 12 awr (rhwng BIPCF ac Ysbyty Athrofaol Bryste (YAB)). Eglurwyd ymhellach nad oedd y galw am y gwasanaeth mor uchel â'r disgwyl. Fel y cyfryw, roedd y capasiti rhwng BIPCF a YAB yn ddigonol i ateb y galw presennol ac ar hyn o bryd roedd y CBC yn comisiynu mwy o gapasiti nag a oedd yn cael ei ddefnyddio. Roedd sgysiau'n parhau gydag YAB o ran gwasanaeth gyda'r hwyr a gwasanaeth 24 awr. Ni fydd cam nesaf yr achos busnes yn galluogi gwasanaeth 24 awr gan BIPCF ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau adeiladu a dyma'r rheswm dros barhau â'r sgwrs gydag YAB.

Rhannodd ID ei fod wedi ysgrifennu at Gyfarwyddwyr Meddygol i amlygu problemau gyda'r llwybr strôc gan fod lefelau'r atgyfeiriadau ar gyfer Thrombectomi yn isel iawn o hyd. Cadarnhaodd ID fod y ffigurau diweddaraf yn awgrymu y byddai tua 15% o gleifion strôc yn elwa ar Thrombectomi Mecanyddol ond bod nifer gwirioneddol yr atgyfeiriadau yn llai nag 1% mewn rhai Byrddau Iechyd. Amlygwyd hyn fel achos pryder gan y gallai rhai cleifion strôc fod yn cael canlyniad llawer gwell. Byddai hyn yn parhau i gael ei nodi fel problem gyda Chyfarwyddwyr Meddygol i sicrhau ei bod yn glir nad mater comisiynu yn unig mo cyrchu gwasanaethau Thrombectomi.

Cytunodd RW fod Thrombectomi yn fater ar draws y llwybr. Ar hyn o bryd roedd gan Gymru tuag 11-12 o safleoedd sy'n ymdrin ag achosion strôc aciwt ac felly roedd arbenigedd clinigol yn y maes hwn wedi'i ddosbarthu ar draws yr ardaloedd hyn. Cadarnhaodd RW ei fod wedi cysylltu â'r gwasanaeth ambiwlans am y mater hwn. Cyrhaeddodd tua 40% o achosion strôc mewn ambiwlans. Bydd data Cymru nawr yn cael ei ychwanegu at gronfa ddata Rhaglen Archwilio Genedlaethol Strôc (SNAP) Sentinel, a fyddai'n helpu i olrhain canlyniadau ar gyfer cleifion strôc.

Er bod gofal yn agosach at gartref yn cael ei werthfawrogi, nododd yr aelodau nad oedd bob amser yn darparu'r gwasanaethau o'r ansawdd uchaf neu'r mwyaf cost-effeithiol. Myfyriodd MW ar hyn a nododd fod rhyng-ddibyniaeth yn aml o fewn gwasanaethau arbenigol o'r fath. Cyflawnir thrombectomi gan niwradiologwyr ymyriadol, sy'n eu galluogi i gynnig ystod ehangach o wasanaethau y tu hwnt i thrombectomi. Roedd yr aelodau'n



	<p>cydnabod ei bod yn gymhleth ystyried y rhyng-ddibyniaethau hyn a mynegi hyn ond y dylai fod yn ystyriaeth bwysig yn y trafodaethau hyn.</p> <p>Crynhodd MW mai'r nod bob amser fu comisiynu gwasanaeth 24/7 cynaliadwy ond bod angen sicrhau hefyd fod cleifion addas yn cael eu nodi ar gyfer triniaeth a sicrhau bod digon ohonynt i gynnal gwasanaeth. Sicraodd MW yr aelodau fod hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth ond y byddai'n cymryd amser i'w ddatrys. Pan ofynnwyd iddi am amserlen yr achos busnes, esboniodd MW fod yr achos busnes lefel gwasanaeth a gafwyd yn fwy costus na'r disgwyl ac nad oedd yn diwallu anghenion gweithgaredd. Bydd dyddiadau cau newydd yn cael eu gosod ar ôl i'r trafodaethau ddod i ben.</p> <p>Cadarnhaodd AF y byddai'r trafodaethau a'r pryderon penodol a godwyd yn cael eu hadlewyrchu yn adroddiad Cadeirydd yr Is-bwyllgor ADC. Er bod aelodau wedi mynegi pryderon am y risgiau sy'n gysylltiedig â Thrombectomi, roeddent yn gwerthfawrogi'r ymdrechion i ail-ddisgrifio'r risgiau hyn o safbwynt comisiynydd. Yn ogystal, awgrymodd yr aelodau y byddai'n ddefnyddiol i'r CBC ystyried sgoriau targed i ddeall, rheoli a lliniaru'r risgiau hyn yn well.</p> <p>Penderfynodd yr Aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodi'r adroddiad.• Ystyried a chraffu ar y risgiau a neilltuwyd ar ran y CBCGC.• Rhoi sicrwydd ymlaen i'r CBC fod proses effeithiol ar waith ar gyfer rheoli'r risgiau ar draws y sefydliad.
QSO25/ 099	<p>4.1 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol</p> <p>Cafwyd adroddiad ar faterion ansawdd, diogelwch a chanlyniadau sy'n ymwneud â'r Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol ac amlygodd MW:</p> <ul style="list-style-type: none">• Fod Gwasanaeth Dyfeisiau Mewnblaniad Clywedol Arbenigol De Cymru wedi'i wneud yn destun Lefel 3 oherwydd pryderon rhestr aros. Roedd y CBC wedi cwrdd â'r darparwr a chael cynllun gweithredu sy'n ceisio lleihau amseroedd aros erbyn diwedd Chwarter 4.• Bod Gwasanaethau Llawdriniaeth Gordewdra Northern Care Alliance Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbyty Brenhinol Salford wedi rhoi rhybudd. Bydd CBCGC yn chwilio am ddarparwr arall ar gyfer cleifion Gogledd Cymru.• Bod y gwasanaeth Newyddenedigol wedi cael ei isgyfeirio. Amlygodd CB yr effaith gadarnhaol ar adrodd data ac adroddiadau cwest crwner yn dilyn gwelliannau o fewn y gwasanaeth.• Trafodwyd y risg Thrombectomi o dan Eitem 3.1. Mae heriau'n parhau gydag allgymorth llawfeddygaeth blastig yng Ngogledd Cymru, PET-CT ar gyfer canser y prostad, Achrediad Cyd-bwyllgor Achredu'r Gymdeithas Ryngwladol (JACIE) ar gyfer Trawsblannu Mêr Esgyrn (BMT) a Gwasanaethau Celloedd T gyda Derbynyddion Antigen Cimerig (CAR-T) (adroddiad yn dal i fod yn yr arfaeth), ac anemia etifeddol.• Disgwyliwyd arbedion cost wrth newid darparwyr ar gyfer bwydo trwy'r ymysgaroedd mewn achosion o fethiant coluddol.• Cynhaliwyd amryw o ddigwyddiadau mewn perthynas ag Arloesi a Gwella Gwasanaethau, gan gynnwys Oncoleg Bediatrig, Gwasanaeth Ystum a Symudedd Cymru Gyfan a Methiant Coluddol. <p>Trafododd yr aelodau y potensial i estyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch Ysgogiad Ymennydd Dwfn a'r ymgysylltu rhagweithiol â'r cyhoedd yn dilyn pryderon a godwyd am y camau nesaf. Roedd yr amserlenni i ddechrau yn y flwyddyn ariannol newydd. Fodd bynnag, gwnaed cais i adolygu a ellid estyn y cyfnod oherwydd gwyliau'r Nadolig.</p> <p>CAM GWEITHREDU: MW i adolygu amserlenni ymgynghori Ysgogiad Ymennydd Dwfn a chadarnhau gydag AM y tu allan i'r cyfarfod a oedd estyniad yn bosibl. Bydd MW hefyd yn cysylltu ag AM ynglŷn â'r opsiynau cyhoeddus ar gyfer ymgysylltu ychwanegol â'r cyhoedd.</p>



	<p>Trafododd yr Aelodau adolygiadau cenedlaethol parhaus o wasanaethau newyddenedigol, argaeledd data o ansawdd, a'r angen am eglurder ar drefniadau comisiynu. Cynlluniwyd adolygiad ailosod comisiynu a fydd yn ceisio egluro'r hyn a gomisiynir gan CBCGC o ran gwasanaethau Newyddenedigol. Bydd diweddariadau yn y meysydd hyn yn parhau i gael eu rhannu gyda'r Is-bwyllgor ADC a'r Cydbwyllgor lle bo hynny'n briodol.</p> <p>Penderfynodd yr Aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Sylwi ar y diweddariadau comisiynu arbenigol sy'n cael eu crynhoi yn yr adroddiad.• Sylwi ar y crynodeb o'r risgiau arbenigol a ddisgrifiwyd, a'r gwasanaethau hynny a uwchgyfeiriwyd ar gyfer monitro ychwanegol.
QS025/ 100	<p>4.2 Adroddiad gan Rwydwaith Arennau Cymru</p> <p>Cafwyd adroddiad ar faterion ansawdd, diogelwch a chanlyniadau sy'n ymwneud â Rhwydwaith Arennau Cymru ac amlygodd RP:</p> <ul style="list-style-type: none">• Fod un Digwyddiad a Adroddwyd yn Genedlaethol (NRI) wedi'i gau mewn perthynas â gwaedlif ffistwla trychinebus a arweiniodd at farwolaeth y claf gartref. Cafodd ymyriad lawfeddygol ei ohirio oherwydd cydafiachedd, cymhlethdodau anesthetig, a phroblemau gyda chyfathrebu a phroses. Sicrhodd RP yr aelodau fod dysgu'n cael ei ledaenu ledled Cymru gan ystyried newid amserlenni ymyrryd ar gyfer yr achosion prin ond risg uchel hyn.• Rhoddwyd gwybod am un NRI newydd, a nodwyd hefyd fel risg 93 sy'n dod i'r amlwg. Amlinellodd RP gamau cynnar ymchwiliad annibynnol yn dilyn achos byr ond sydyn o gau rhaglen drawsblannu Caerdydd, a arweiniodd at golli cyfleoedd trawsblannu. Canolbwyntiodd ymchwiliad ar y rhesymau pam a sut y caeodd yr uned. Sicrhawyd Rhwydwaith Arennau Cymru nad oedd y gwasanaeth yn agored i niwed, a bod mesurau wedi'u cymryd ar unwaith i atal unrhyw ddigwyddiadau pellach. Bydd cydweithio rhanbarthol gyda Bryste a'r De-orllewin yn bwysig, ond roedd yn rhy gynnar dod i gasgliadau cyn i'r ymchwiliad ddod i ben. <p>Gwnaeth yr Aelodau nodi a chytuno â phwysigrwydd dysgu o'r digwyddiadau hyn a nodwyd statws yr ymchwiliad.</p> <p>Penderfynodd yr Aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodi'r adroddiad.
QS025/ 101	<p>4.3 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Ambiwllans ac 111</p> <p>Cafwyd adroddiad am faterion ansawdd, diogelwch a chanlyniadau sy'n ymwneud â gwasanaethau Ambiwllans ac 111. Amlygodd RW:</p> <ul style="list-style-type: none">• Fod Cam 2 y fframwaith perfformiad ambiwlans wedi'i ddiweddarau wedi'i lansio ar 2 Rhagfyr 2025, ar ôl i'r tîm weithio gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru (WAST) a phartneriaid i asesu a lliniaru risgiau. Arweiniodd hyn at gyfraddau cludo sylweddol uwch yn y categori oren.• Bod menter Trosglwyddo 45, sy'n anelu at drosglwyddo cleifion o fewn 45 munud, wedi gwella perfformiad ond bod y canlyniadau'n amrywio yn ôl Bwrdd Iechyd ac ysbyty, gan amlygu bod angen cymorth wedi'i dargedu. Roedd pob bwrdd iechyd wedi cwblhau asesiad parodrwydd, sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd gan y Tasglu Trosglwyddo Ambiwllans Cenedlaethol ynghylch rhyddhau ambiwlans awtomatig am 45 munud.• Roedd y Gwasanaethau Cludo Cleifion mewn Achosion nad ydynt yn Frys (NEPTS) yng Nghymru yn wynebu problemau capasiti parhaus, gan arwain at ganslo trafndiaeth cleifion allanol a rhyddhau. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, roedd y Tîm Comisiynu Gwasanaethau Ambiwllans ac 111 yn cynnal fforymau wythnosol gyda rhanddeiliaid, gyda'r nod o integreiddio strategol a gwell effeithlonrwydd rhyddhau o dan Weledigaeth NEPTS y Dyfodol (2030).• Roedd WAST wedi parhau â'i ymdrechion i wella capasiti trin galwadau 111, gan sefydlu Bwrdd Prosiect Ailrestru Dyletswyddau 111 pwrpasol. Mae'r Tîm Comisiynu Gwasanaethau Ambiwllans ac 111 yn parhau i chwarae rhan weithredol, gan ddarparu cefnogaeth ar gyfer blaenoriaethau strategol a chyfeiriad y system gofal brys ac argyfwng. Roedd hyn yn cynnwys mapio'r gwahanol wasanaethau asesu



	<p>clinigol sydd ar gael ledled Cymru ar hyn o bryd i nodi dyblygu a datblygu cynigion ar gyfer mwy o effeithlonrwydd. Roedd heriau disgwylidig sy'n gysylltiedig â'r gaeaf hefyd yn cael sylw.</p> <ul style="list-style-type: none">Roedd trafodaethau parhaus gyda WAST yn canolbwyntio ar sicrhau bod y CBC yn cael adroddiadau amserol a diweddar am ddigwyddiadau a phryderon, yn ogystal â gweithredu gwersi a ddysgwyd o'r canlyniadau hyn. <p>Trafododd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">Fod perfformiad WAST yn gwella, a bod angen un dull adrodd i'r Cyd-bwyllgor Comisiynu. Roedd y newidiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn adroddiadau'r Is-bwyllgor ADC.Bod adolygiad allanol o'r Model Fframwaith Ambiwlansys i fod i gael ei gynnal gan Brifysgolion Edge Hill ac Abertawe. <p>Penderfynodd yr Aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">Nodi cynnwys yr Adroddiad Ansawdd a Diogelwch Gwasanaethau Ambiwlans ac 111.Derbyn yr adroddiad fel sicrwydd.
QSO25/ 102	<p>4.4 Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau sy'n Agored i Niwed (IMADGAN)</p> <p>Cafwyd adroddiad am faterion ansawdd, diogelwch a chanlyniadau sy'n ymwneud ag IMADGAN. Amlygodd AC:</p> <ul style="list-style-type: none">Fod gwasanaeth St Andrews wedi'i atal o hyd o dan y Cytundeb Fframwaith Cenedlaethol a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd drwy broses Monitro Gwell y Fframwaith. Parhaodd y CBC, ynghyd â nifer o asiantaethau, i gynnal cyfarfodydd goruchwylio a chyfarfod yn aml â'r darparwr. Anogwyd Byrddau Iechyd i fonitro eu cleifion yn agos ac ar hyn o bryd roedd chwe lleoliad diogelwch canolig wedi'u comisiynu gan y CBC o fewn y gwasanaeth. Roedd cynnydd sylweddol mewn diddordeb gan y cyfryngau lleol a chenedlaethol yn dilyn adolygiad diweddaraf y Comisiwn Ansawdd Gofal o'r gwasanaeth a ryddhawyd ar 12 Rhagfyr 2025. Barnwyd bod y darparwr yn annigonol ar draws nifer o feysydd.Nododd adolygiad Medi 2025 o Glinig Caswell bryderon diogelwch ac ansawdd. O ganlyniad, penderfynwyd Uwchgyfeirio'r gwasanaeth i Lefel 3 ac atal derbyniadau newydd i'r uned oherwydd y pryderon diogelwch hyn. Crëwyd cynllun gweithredu, ac er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, roedd materion heb eu datrys o hyd ynglŷn â risgiau amgylcheddol ac arferion asesu risg staff. Bydd aelod o dîm CBCGC yn cynnig cyngor a hyfforddiant ar asesu risg ac mae AC wedi trefnu bod staff o'r Uned yn ymweld ag Uned diogelwch canolig arall.Roedd Uned Amenedigol Seren Lodge yn Ysbyty Iarllles Caer i agor ar gyfer derbyniadau ar 17 Rhagfyr 2025, gydag ymweliad gan y tîm comisiynu IMADGAN wedi'i drefnu ar gyfer 9 Ionawr 2026. <p>Gofynnodd yr Aelodau sut y gallai adolygu manylebau gwasanaeth diogelwch canolig gadarnhau safonau hyfforddi gofynnol ar gyfer asesiadau risg, a nodwyd bod adolygiadau o'r fath yn mynd i'r afael â materion fel gwaith gwrth-glymu a systemau larwm, a oedd i gyd yn hanfodol ar gyfer diogelwch cleifion a staff. Cytunodd yr aelodau mai cadw Clinig Caswell ar gau i dderbyniadau newydd hyd nes y bydd sicrwydd boddhaol oedd y dull cywir. Cadarnhaodd AC fwriad i gydredeg â manylebau GIG Lloegr ar draws gwasanaethau diogelwch canolig ac isel.</p> <p>Penderfynodd yr Aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">Nodi'r adroddiad a chymryd sicrwydd ynghylch y gwaith parhaus i ddatblygu a monitro gwasanaethau a gomisiynir o fewn meysydd clinigol Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grŵp Agored i Niwed.
QSO25/ 103	<p>4.5 Llwybrau Uwchgyfeirio</p> <p>Cafwyd a nodwyd yr Adroddiad Llwybrau Uwchgyfeirio, gyda'r Pwyllgor yn cydnabod bod manylion y gwasanaethau wedi'u huwchgyfeirio wedi cael eu trafod yn ystod diweddariadau blaenorol. Nododd yr aelodau y newidiadau a wnaed i'r adroddiad a dywedwyd bod y rhain</p>



	<p>yn ddefnyddiol. Bydd yr adroddiad yn atodiad i adroddiad Cadeirydd yr Is-bwyllgor ADC yng Nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Comisiynu ym mis Ionawr 2026.</p> <p>Penderfynodd yr Aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodi'r adroddiad.
QS025/ 104	<p>4.6 Adroddiad Digwyddiadau a Phryderon</p> <p>Cafwyd adroddiad yn amlinellu crynodeb o'r pryderon a'r digwyddiadau a adroddwyd i CBCGC gan y darparwr a'r gwasanaethau a gomisiynwyd. Nododd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• 4 digwyddiad newydd y gellir ei adrodd yn genedlaethol, 1 DATIX ac 1 hysbysiad rhybudd cynnar a adroddwyd i'r timau Comisiynu dros gyfnod 01/09/2025 - 31/11/2025.• Caewyd pedwar digwyddiad yn ystod y cyfnod adrodd hwn.• Roedd 36 o ddigwyddiadau yn parhau ar agor ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.• Cafwyd 6 chwyn newydd.• Dim atgyfeiriadau newydd i'r Ombwdsmon. <p>Amlygodd CB welliannau yn y strwythur adrodd, ac adolygiad parhaus o brosesau cwyno i gryfhau adrodd.</p> <p>Penderfynodd yr Aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodi'r adroddiad.• Derbyn yr adroddiad fel sicrwydd.
QS025/ 105	<p>4.7 Adroddiad y Rheoleiddiwr (Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)/y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)</p> <p>Cafwyd adroddiad yn rhoi gwybodaeth am adroddiadau Arolygiaeth Iechyd Cymru (AGIC) a CQC. Nododd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nad oedd y diweddariad CQC newydd yn ymwneud â St Andrew's wedi'i gynnwys yn yr adroddiad oherwydd dyddiadau cau adrodd ond y byddai'n destun adrodd yn y dyfodol.• Bod uwchgynadleddau AGIC wedi cael eu cynnal ym mis Tachwedd 2025 a bod disgwyl crynodeb yn rhan o'r adroddiad nesaf.• Nad oedd unrhyw faterion o bryder wedi'u hamlygu o fewn y diweddariadau a oedd yn destun adrodd. <p>Penderfynodd yr Aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodi'r adroddiad; a• Derbyn yr adroddiad fel sicrwydd.
QS025/ 106	<p>4.8 Adroddiad gan Banel Ceisiadau Cyllido Claf Unigol (CCCU) Cymru Gyfan</p> <p>Cafwyd Adroddiad y Panel CCCU. Nododd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Fod un cais wedi'i drafod fel Gweithred y Cadeirydd• Bod 17 o geisiadau wedi'u trafod gan Banel CCCU y CBC.• Bod archwiliad y Grŵp Sicrhau Ansawdd wedi'i gynnal.• Bod Adroddiad Blynyddol Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan yn dangos bod CBCGC yn ymdrin â mwy o achosion CCCU na phob Bwrdd Iechyd arall yng Nghymru gyda'i gilydd. <p>Trafododd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Gais am ddiweddariadau CCCU i gynnwys manylion ariannol cymeradwyaethau. Roedd y tîm cyllid yn ymgymryd â gwaith yn y maes hwn.• Bod prosesau CCCU yn cael eu defnyddio i edrych ar gomisiynu carfan fach.• Bod cymeradwyaeth derfynol o bolisi CCCU Cymru Gyfan i'w disgwyl ym mis Ionawr 2026, gan nad oedd rhai Byrddau Iechyd wedi cyflwyno'r polisi wedi'i ddiweddarau i'w Bwrdd i'w gymeradwyo eto. Y bwriad oedd gweithredu'r polisi ledled Cymru ym mis Chwefror 2026. <p>Penderfynodd yr Aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodi'r adroddiad.• Derbyn yr adroddiad fel sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd y Panel CCCU.



QS025/ 107	4.9 Diweddariad Newyddenedigol Nodwyd bod diweddariad Newyddenedigol wedi'i rannu o fewn diweddariadau'r Cyfarwyddwr Comisiynu.
QS025/ 108	5.1 Unrhyw Fusnes Arall 5.1.1 Cronfa Risg Cymru – eitem wedi'i chynnwys i'w nodi ac at ddibenion gwybodaeth yn unig. Cadarnhawyd nad oedd gan Hawliadau Cyfreithiol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i CBCGC ac y byddai unrhyw achosion perthnasol yn destun adrodd trwy'r adroddiad digwyddiadau a phryderon.
QS025/ 109	6.2 Blaengynllun Busnes 2025-2026 Nododd yr Aelodau y blaengynllun busnes.
QS025/ 110	6.3 Eitemau i'w gohirio/uwchgyfeirio at y Cydbwyllgor Comisiynu / Is-bwyllgorau eraill ac adolygiad o unrhyw gamau gweithredu i gyfarfodydd yn y dyfodol Trafodaethau Rheoli Risg, yn benodol y pryderon ynghylch Thrombectomi, a'r angen i Gyfarwyddwyr Meddygol fod yn rhan o'r trafodaethau hyn. Bydd diweddariad ar St Andrews a Caswell yn cael ei uwchgyfeirio er gwybodaeth yng Nghyfarfod Cydgomisiynu mis Ionawr. Cyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Arbenigol i gysylltu â Llais mewn perthynas â'r Ymgynghoriad Ysgogiad Ymennydd Dwfn ac ymgysylltu â'r cyhoedd.
QS025/ 111	6.4 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf Disgwylir i'r cyfarfod nesaf a gadarnhawyd gael ei gynnal ar 23 Chwefror 2026.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:34.